Easy Read

# Dechrau'n Deg Conwy Hysbysiad Preifatrwydd



Dyma ddogfen hawdd ei darllen gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Diweddarwyd Ionawr 2026

## Tabl Cynnwys


Ynglŷn â'r ddogfen hon ... 3

Ynglŷn â'r prosiect ... 4

Beth fyddwn ni'n ei ofyn amdanoch chi? ... 4

Defnyddio eich data ... 5

Pam ein bod ni eisiau eich data? ... 5

O ble rydym ni wedi derbyn eich manylion cyswllt? ... 5

A oes rhaid i chi gymryd rhan yn y Rhaglen Dechrau'n Deg? ... 5

Recordiadau fideo a ffotograffau ... 6

Pa mor ddiogel yw eich data personol? ... 6

Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni? ... 8

Am ba hyd rydym yn cadw eich data personol? ... 8

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddefnyddio eich data personol? ... 8

Eich hawliau ... 9

I gael mwy o wybodaeth ... 10

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

Gelwir y ddogfen hon yn Hysbysiad Preifatrwydd.

Bydd rhan gyntaf yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu wrth gofrestru ar gyfer y Rhaglen Dechrau'n Deg.

Mae'n dweud wrthych ein bod yn prosesu eich data ac yn esbonio beth mae hyn yn ei olygu.

Mae ail ran yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn sôn am y data yr hoffem ei gasglu gennych chi.

Mae hefyd yn dweud wrthych am y rheolau y mae'n rhaid i ni eu dilyn i ddefnyddio eich data a sut rydym yn ei gadw'n ddiogel.



## Ynglŷn â'r prosiect

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Nod y rhaglen yw gwella canlyniadau i deuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.



## Beth fyddwn ni'n ei ofyn amdanoch chi?

Gelwir gwybodaeth amdanoch chi yn ddata personol.

Byddwn yn defnyddio eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost i gysylltu gyda chi.

Os byddwch yn dewis bod yn rhan o raglen Dechrau'n Deg Conwy, byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen gofrestru gyda'r data canlynol:

- Enw
- Cyfeiriad (yn cynnwys cod post)
- Dyddiad Geni
- Rhif Cyswllt
- Statws Mewnfudo (dewisol)
- Ethnigrwydd (dewisol)
- Enw'r Plentyn / Enwau'r Plant
- Dyddiad Geni'r Plentyn / Dyddiadau Geni'r Plant

- Caniatâd i rannu llofnod

## Defnyddio eich data

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r **rheolwr data** ar gyfer y rhaglen hon.

Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu 'sut' a 'pham' mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio. Maent yn sicrhau bod y rheolau'n cael eu dilyn.

Llywodraeth Cymru yw'r **rheolwr data** a'r **prosesydd data** ar gyfer y prosiect hwn.

Mae hyn yn golygu eu bod yn gyfrifol am ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol a'i chadw'n ddiogel ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## Pam ein bod ni eisiau eich data?

Mae'r hyn a ddywedwch wrthym yn bwysig i helpu Cyngor Conwy.

Mae'n golygu y bydd gennym y wybodaeth gywir i helpu gyda darparu gwasanaethau i chi.

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion.

## O ble rydym ni wedi derbyn eich manylion cyswllt?

Efallai bod Llywodraeth Cymru, Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd Lleol) a Chyngor Conwy eisoes yn meddu ar eich manylion cyswllt.

Mae hyn yn golygu efallai bod eich data personol eisoes yn cael ei storio gennym ni os ydych wedi ymgysylltu â gwasanaethau eraill a'i roi i ni yn barod.

## A oes rhaid i chi gymryd rhan yn y Rhaglen Dechrau'n Deg?

Eich dewis chi yw cymryd rhan neu beidio. Mae gennych chi hawl i newid eich meddwl ar unrhyw adeg.

Os nad ydych eisiau cymryd rhan, byddwn yn tynnu eich manylion.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fyddwch yn elwa o'r gwasanaethau y mae Dechrau'n Deg yn eu cynnig.

Nid oes arnom angen mwy o ddata personol gennych chi, oni bai ein bod angen caniatâd ychwanegol (e.e. ar gyfer eich llun os ydych yn cytuno i luniau'n cael eu tynnu a ffilmio).

Os ydych yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni, byddwn yn sicrhau nad yw pobl yn defnyddio’r wybodaeth i geisio canfod pwy ydych chi.

Os oes gennych gŵyn neu gwestiwn na allwn ei ateb, byddwn yn anfon y gŵyn neu’r cwestiwn at yr unigolyn sy’n gyfrifol am helpu. Byddwn wedyn yn dileu’r gŵyn neu’r cwestiwn o gofnodion ein prosiect.

## Recordiadau fideo a ffotograffau

Efallai y byddwn yn tynnu lluniau neu’n recordio sesiynau neu weithgareddau. Bydd hyn yn ein helpu i gofio digwyddiadau a rhannu llwyddiannau.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn i ni ddechrau recordio neu dynnu lluniau.

Byddwn ond y recordio gweithgareddau os ydych chi a phawb arall yn hapus ac yn cytuno.

Pan fydd pawb wedi cytuno, byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Bydd y ffurflen hon yn cael ei chadw yn ein cofnodion ynghyd â’ch data personol.

Gallwch ddweud wrthym os nad ydych eisiau cael eich recordio. Nid oes rhaid i chi gytuno.



## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae’r gyfraith y dweud bod rhaid i ni gadw eich data personol yn ddiogel. Bydd yn cael ei gadw ar gyfrifiadur diogel.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer y Rhaglen Dechrau’n Deg yn unig. Efallai y byddwn yn rhannu’r wybodaeth gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor at ddibenion cynnig cefnogaeth ychwanegol os cytunir ar hynny.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dystysgrif Hanfodion Seiber+, a gefnogir gan y llywodraeth.

Mae hyn yn golygu eu bod wedi dangos bod eu systemau cyfrifiadurol yn dilyn cyfres benodol o reolau i gadw gwybodaeth yn ddiogel.

Mae gan Lywodraeth Cymru a Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd Lleol) gyfarwyddiadau i'w dilyn os yw'r rheolau diogelwch gwybodaeth yn cael eu torri.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhoi gwybod i chi os yw'r rheolau wedi'u torri ac yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fydd angen.

## Sut y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio’r holl wybodaeth sy’n cael ei chasglu i ddarparu’r gwasanaeth / gwasanaethau gofynnol i chi.

Bydd gwybodaeth a gesglir gan Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd Lleol) at ddibenion y rhaglen Dechrau’n Deg hefyd yn cael ei rhannu gyda ni. Mae hyn i sicrhau ein bod yn gweithio gyda’n gilydd i ddarparu gwasanaethau cywir a pherthnasol i chi.

## Am ba hyd rydym yn cadw eich data personol?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel drwy’r prosiect cyfan.

Bydd yr holl wybodaeth sydd gennym amdanoch yn cael ei dileu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy os yw caniatâd yn cael ei dynnu’n ôl.

Fel arall, bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir ar ein system yn cael ei dileu o fewn blwyddyn ar ôl i’r rhaglen ddod i ben.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  yn cadw eich manylion cyswllt os oeddent eisoes gennym am reswm arall, oni bai bod caniatâd yn cael ei dynnu’n ôl.

## Beth mae’r gyfraith yn ei ddweud am ddefnyddio eich data personol?

Mae gan y gyfraith reolau ynglŷn â sut yr ydym yn defnyddio ac yn cadw eich gwybodaeth bersonol.

Enw’r rheoliadau yw Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR).

Yn ôl y gyfraith, gallwn brosesu a defnyddio eich data personol a’r pethau rydych chi’n eu rhannu gyda ni er mwyn i ni allu gwneud ein gwaith.

Y rheswm swyddogol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i egluro hyn yw ‘**tasg gyhoeddus**’.

Mae’r prosiect hwn yn bwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru. Mae’n dangos ein bod yn gweithio tuag at ein nodau a pholisïau.



## Eich hawliau

Mae hawliau'n bethau y dylai bob person eu cael yn unol â'r gyfraith.

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data yn golygu bod gennych yr hawl i:

- ofyn i gael gweld unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch chi
- gofyn i ni newid gwybodaeth amdanoch sy'n anghywir
- gofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth
- gofyn am gael dileu eich gwybodaeth
- cwyno am sut yr ydym yn defnyddio neu'n gofalu am eich gwybodaeth.

Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i wneud cwyn.

Maen nhw'n gyfrifol am wirio ein bod yn dilyn y rheolau.

Gallwn anfon llythyr i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn defnyddio'r cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Neu ffoniwch: 0303 123 1113

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar eu gwefan: www.ico.gov.uk

## I gael mwy o wybodaeth

Gallwch ofyn cwestiynau, ac fe allwch ofyn am fwy o wybodaeth.

Os ydych eisiau siarad am eich data cysylltwch â Dylan Berrie yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gallwch e-bostio: uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk

Neu ffonio: 01492 577215

Gallwch hefyd anfon llythyr i Gyngor Conwy yn defnyddio’r cyfeiriad isod:

Uned Llywodraethu Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
CONWY
LL30 9GN